Achub y Plant
Save the Children

Galwadau Maniffesto Achub y Plant yng Nghymru ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021

Cyflwyniad

Mae Achub y Plant eisiau i bob plentyn gael plentyndod diogel a hapus a sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, sy'n eu galluogi i wireddu pob cyfle ar gyfer eu dyfodol. Un o'r heriau mwyaf y mae unrhyw Lywodraeth Cymru'n ei hwynebu yw lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol y mae plant mewn tlodi'n ei ddioddef. Mae plant ifanc yn arbennig o agored i dlodi a'r effeithiau posibl ar eu llesiant corfforol ac emosiynol.

Mae tystiolaeth hirsefydlog, barhaus sydd yn dangos perthynas sylweddol rhwng yr anfantais y mae plant sydd yn byw mewn tlodi'n ei wynebu a chanlyniadau addysg gynnar plant ifanc. Erbyn tair oed, gall plant o gefndiroedd difreintiedig fod cymaint â blwyddyn ar ôl eu cyfoedion ac mae'r bwlch cyrhaeddiad hwn yn ehangu erbyn iddynt ddechrau'r ysgol. Mae gormod o blant yng Nghymru, yn arbennig y plant hynny sydd yn byw mewn tlodi, yn cael eu gadael ar ôl yn y blynyddoedd cynnar ac, yn hanfodol, mae llawer byth yn llwyddo i ddal i fyny yn nes ymlaen mewn bywyd.

Mae mynediad at safon byw digonol i gyflawni datblygiad corfforol, meddyliol, cymdeithasol a moesol plentyn yn hawl yn unol ag erthygl 27 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae Erthygl 4 yn datgan bod yn rhaid i bob llywodraeth wario hyd at "uchafswm yr adnoddau sydd ar gael" i ryddhau plant rhag bywyd o dlodi.

Bydd lefelau cynyddol tlodi plant yn gofyn i Lywodraethau ar bob lefel weithredu. Gall, a dylai, Llywodraeth y DU wneud defnydd llawn o'i phwerau, yn cynnwys y gallu i gynyddu incwm teuluoedd. Bydd rôl Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru yn y pum mlynedd nesaf yn hanfodol i sicrhau ein bod yn mynd i'r cyfeiriad iawn o ran lleihau tlodi plant.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno arweinyddiaeth gref ac uchelgeisiol ar gyfer plant trwy:

- Benodi Gweinidog Plant sydd yn goruchwylio ac yn atebol am bob maes polisi sydd yn effeithio ar blant.
- Sefydlu Is-bwyllgor Cabinet i sicrhau cydlynu a chraffu'n well ar faterion plant.
- Cyhoeddi Strategaeth Polisi Plant wedi ei adnewyddu gyda Chynllun Cyflawni, â cherrig milltir mesuradwy, clir a thargedau uchelgeisiol, gyda threfniadau adrodd tryloyw i adlewyrchu'r effeithiau hyn ac felly sicrhau nad oes unrhyw blentyn o dan anfantais oherwydd incwm y teulu.

Effaith Tlodi Plant

Hyd yn oed cyn argyfwng Covid-19, roedd bron un ym mhob tri (180,000) plentyn yng Nghymru yn tyfu i fyny yng ngafael tlodi. Rydym o'r farn y gallai'r ffigur hwn gynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r pandemig, gan gynyddu'r brwydrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu ac arwain llawer mwy i wynebu caledi. Mae'r effaith hefyd yn debygol o fod yn uwch oherwydd yr effeithiau economaidd sydd yn gysylltiedig ag anfanteision presennol, sydd yn arwain at gyfraddau tlodi uwch mewn ardaloedd sydd eisioes yn dlotach. Rydym yn poeni'n arbennig am effaith tlodi ar lesiant a chanlyniadau plant. Mae cynnydd wedi cael ei wneud, ond mae effaith Covid-19 ar deuluoedd incwm isel wedi bod yn llym a bydd angen gweithredu sylweddol yn ystod cyfnod y Senedd nesaf i gyflawni'r amcanion hanfodol hyn. Mae angen i ni wneud cynnydd yn atal a lleihau tlodi ymysg plant, a'i effaith ar addysg a datblygiad plant ifanc. Mae lleihau tlodi yn allweddol i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a gwella canlyniadau plant yn y blynyddoedd cynnar, gan roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. Mae effaith tlodi plant yn cael ei deimlo yn amgylchedd addysgol a chartref plentyn, gyda'r effaith hirdymor ar blant ifanc yn bryder penodol.

Gwyddom fod llawer o deuluoedd incwm isel â phlant yn aml yn wynebu costau byw uchel. Gall talu am hanfodion hyd yn oed, fel bwyd, biliau'r cartref neu gewynnau ar gyfer eu plant, fod yn ymdrech ddyddiol. Ni ddylai teuluoedd wyneb dewisiadau amhosibl rhwng rhoi bwyd ar y bwrdd neu arian yn y mesurydd trydan. Mae Mynediad at Brydau Ysgol am Ddim yn achubiaeth hanfodol i lawer o deuluoedd, sydd yn galluogi plant i gael pryd cynnes bob dydd.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- Ymestyn y cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim i bob plentyn gan gynnwys yn ystod y gwyliau ysgol, os yw rhiant neu warcheidwad yn cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau cyfwerth.

Arwyddocâd tlodi yn y blynyddoedd cynnar a chau y bwlch tlodi yn y blynyddoedd cynnar

Mae gormod o blant yng Nghymru, yn arbennig y plant hynny sydd yn byw mewn tlodi, yn cael eu gadael ar ôl yn ystod eu blynyddoedd cynnar ac, yn hanfodol, mae llawer byth yn llwyddo i ddal i fyny. Bydd blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn llunio eu personoliaeth, eu sgiliau a'u gallu. Dylai fod gan bob plentyn ifanc yng Nghymru fynediad at addysg a gofal o ansawdd uchel ac yn elwa arnynt. Mae cyflawni'r uchelgais hwn yn golygu cael polisi'r blynyddoedd cynnar sydd yn sicrhau mynediad at system fydd yn darparu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC) o ansawdd uchel i bob plentyn ifanc tra'n parhau i gefnogi teuluoedd.

Gwyddom fod tlodi'n effeithio ar ganlyniadau plant a gallu rhieni i gefnogi addysg eu plant. Gwyddom fod plant sydd ag amgylchedd dysgu cyfoethog ac amrywiol gartref yn gwneud yn well na'u cyfoedion, waeth beth fo lefelau incwm y teulu neu gyrhaeddiad addysgol rhieni. Mae'n hanfodol, felly, i wella cyfleoedd dysgu a chwarae cynnar plant trwy gefnogi rhieni a darparu amgylchedd dysgu ysgogol ac ymatebol gartref o enedigaeth plant ymlaen, a grymuso a galluogi rhieni i barhau i ymgysylltu ag addysg eu plant wrth iddynt ddechrau'r ysgol. Dylai darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â rhieni a gwrando arnynt, yn gynnar yn y broses o gynllunio polisi, fod yn rhan annatod o ddatblygu strategaeth ymgysylltu effeithiol.

Dylai cefnogi ymgysylltiad rhieni o ansawdd fod yn flaenoriaeth i fynd i'r afael â'r bwlch addysg gynnar.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- Sicrhau bod pob plentyn sydd yn byw mewn tlodi, waeth beth fo'u hoed a statws gwaith eu rhieni, yn cael mynediad at system ECEC gydlynol ac integredig o ansawdd uchel.

- Weithio gydag ysgolion a darparwyr eraill gwasanaeth y blynyddoedd cynnar, yn cynnwys dyrannu cyllid, i hybu pwysigrwydd cymorth i deuluoedd ac ymgysylltu rhieni; yn ogystal â sicrhau bod hyn yn cael ei hybu fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

- Cefnogi rhieni i ymgysylltu ag addysg a datblygiad eu plant gartref. Mae angen bod rhieni'n gallu cael mynediad at gymorth, gwybodaeth ac adnoddau, yn cynnwys adnoddau digidol, er mwyn cefnogi addysg eu plant yn effeithiol gartref heb stigma.

Am fwy o wybodaeth am y ddogfen hon ac i ganfod mwy am ein gwaith, cysylltwch â'r:

Cynghorwyr Polisi ac Ymarfer
Catherine Rees c.rees@savethechildren.org.uk
Sara Drysdale s.drysdale@savethechildren.org.uk